# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Mawrth, 27 Tachwedd 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M. Bull, Rheolwr Rhanbarthol - Datblygu Economaidd
C. Owen, Cynorthwyydd Adfywio Cymunedol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa'r Arweinydd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 11.00 am - 11.20 am

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNODION PENDERFYNIADAU**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion penderfyniadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 a Tachwedd 2018 a 16 Tachwedd 2018 gan eu bod yn gywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR A'R CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm a'r Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

**Cronfa'r Degwm**

| **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Capel y Bedyddwyr Adulam, Llanelli | £2,388.00 |
| Fforwm Pentref Trimsaran | £10,000.00 |

**Y Gronfa Cyllid a Dargedir**

| **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Fforwm Trimsaran | £10,000.00 |

**4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. CRONFA LIFOGYDD BUSNESAU SIR GAERFYRDDIN**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr**

**adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**
**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol geisiadau am gymorth gan Gronfa Lifogydd Busnesau Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Lifogydd Busnesau Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Whitemill Inn, Felin-wen | £2369.43 |
| Cambrian Pet Foods Ltd., Llangadog | £4965.79 |

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**